# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cardiff Community Homecare**

**Tŷ Heulog**
**Heol y Bont-faen**
**Tonysguboriau**
**CF72 8FH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cardiff Community Homecare

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Tai Hafod Cyf |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Cardiff Community Homecare yn darparu gofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r bobl o'r farn eu bod yn cael gofal da. Mae gweithwyr gofal hyfforddedig a chymwys yn dangos parch a dealltwriaeth, gan annog y bobl i gynnal neu i wella eu hannibyniaeth. Mae dogfennaeth gofal ar waith ac mae'r cofnodion yn glir ac yn gyflawn. Caiff amseroedd galwadau eu monitro a'u darparu fel y cytunwyd. Mae'r bobl yn cael cymorth i fod mor iach â phosibl, i fyw y bywyd y maent am ei fyw, a chânt eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau dymunol.

Caiff y gwasanaeth ei redeg yn hwylus. Mae rheolwr profiadol yn llywio gwelliannau ac yn grymuso'r gweithwyr gofal fel y caiff y gofal gorau posibl ei ddarparu. Mae systemau monitro effeithiol ar waith i nodi sut gall y gwasanaeth wella ymhellach. Mae'r gwasanaeth yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl er mwyn nodi'r pethau sy'n bwysig i'r bobl, hyd yn oed os yw hynny y tu allan i'r pecynnau gofal sy'n rhan o'r contract, a lle y bo'n bosibl, mae'n cyfwyno gwelliannau sydd o fudd i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Caiff y gwasanaeth ei lywodraethu a'i oruchwylio'n effeithiol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cyflawni ei ddyletswyddau â diwydrwydd dyladwy ac mae'n awyddus iawn i gefnogi'r bobl er mwyn sicrhau eu bod yn cael profiadau gofal da. Mae diwylliant cadarnhaol i'w weld ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel, eu hyfforddi'n briodol, eu cefnogi, a'u parchu gan y sefydliad.

## Llesiant

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gan y bobl wybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth. Mae 'datganiad o ddiben' a 'chanllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth' manwl yn cynnig gwybodaeth i'r bobl am yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae'r bobl yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynlluniau personol drwy asesiad, sy'n cynnig cyfle i roi gwybodaeth iddynt, ond hefyd iddyn nhw roi gwybod i'r gwasanaeth am eu dewisiadau a'u dymuniadau. Mae gan y bobl gopi o'u cynllun personol yn eu cartref, ynghyd â'r cynllun gofal gan yr awdurdod lleol, fel y gallant edrych i weld pa ofal a chymorth y cytunwyd arnynt. Pan fydd y bobl yn anghofio neu'n ei chael hi'n anodd deall, mae'r gweithwyr gofal yn defnyddio sgiliau cyfathrebu da er mwyn helpu i hysbysu'r bobl am eu dewisiadau. Gellir darparu'r wybodaeth yn Gymraeg os bydd angen.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cael eu dilyn, gan hysbysu'r gweithwyr gofal am arferion diogel. Mae asesiadau risg ar waith i nodi sut gall y bobl gael eu cefnogi'n ddiogel. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rôl, gan gynnwys sut i roi meddyginiaeth yn ddiogel, a sut i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed rhag camdriniaeth. Pan fydd materion iechyd yn cael eu nodi, mae'r gwasanaeth yn helpu'r unigolyn i gael gafael ar gymorth meddygol. Mae gweithwyr cymdeithasol neu eiriolwyr ar gael i'r bobl sy'n ei chael hi'n anodd rheoli eu sefyllfa bersonol, gan gynnwys eu cyllid. Ni chaiff unrhyw staff asiantaeth eu defnyddio ar hyn o bryd, ac mae gan y tîm o weithwyr gofal rheolaidd gardiau adnabod, ond mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hefyd yn gyfarwydd iawn â nhw.

Mae'r gwasanaeth yn gwrando ar y bobl. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn gallu siarad â'r gweithwyr gofal os bydd ganddynt bryder. Mae'r gweithwyr gofal yn cynnig clust i wrando bob dydd, ac mae'r bobl yn gwerthfawrogi eu hymweliadau o ran helpu i wella eu hwyliau os byddant yn teimlo'n isel. Caiff dewisiadau'r bobl eu bodloni lle y bo'n bosibl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r bobl er mwyn deall ansawdd y gofal a gaiff unigolion penodol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig y cyfle i'r bobl gwblhau holiaduron sicrhau ansawdd. Caiff y bobl eu cynnwys pan fydd uwch-weithiwr gofal yn adolygu eu cynllun personol, gan eu helpu i ystyried eu hanghenion ac a oes angen newid eu cynllun personol.

Caiff y bobl eu cefnogi i gadw mor iach ac actif â phosibl. Mae'r cynlluniau personol yn nodi sut y gellir helpu'r unigolyn i gynnal ei iechyd a'i lesiant. Mae'r bobl yn gyson yn cael y gofal a'r cymorth cywir gan y gwasanaeth ac yn cael cymorth i drefnu gwasanaethau eraill a fyddai o fudd iddynt. Mae mentrau, megis creu cysylltiadau â sefydliadau yn y gymuned, yn helpu'r bobl i gadw'n actif ac i ddilyn eu diddordebau, fel garddio. Er bod y gwasanaeth yn annog ac yn cefnogi'r bobl i fod yn annibynnol, mae'r gweithwyr gofal bob amser yn cadw

llygad arnynt ac yn barod i godi unrhyw bryderon er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cael yr help a'r cymorth cywir.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal wedi'i bersonoli a gaiff ei gynllunio drwy ymgynghori â nhw. Mae'r gwasanaeth yn ymgynghori â'r bobl ac yn cwblhau asesiad llawn er mwyn casglu gwybodaeth er mwyn helpu i ysgrifennu'r cynllun personol cyn i'r gofal gael ei ddarparu. Mae cynlluniau personol clir ar gael i'r gweithwyr gofal i'w helpu i roi'r gofal cywir. Caiff y bobl eu cynnwys wrth adolygu'r gofal, yn enwedig os bydd angen newid. Caiff canlyniadau dymunol y bobl eu cofnodi. Cawsom wybod am brofiadau cadarnhaol y mae'r pobl yn eu cael, sy'n gwella eu hannibyniaeth, yn datblygu eu hyder, ac yn meithrin cydberthnasau cymdeithasol a theuluol. Mae'r gwasanaeth yn gwneud trefniadau i gefnogi canlyniadau cadarnhaol, ac yn aml yn mynd yr ail filltir, er enghraifft, drwy gysylltu â gwasanaethau eraill yn y gymuned, megis caffis a chanolfanau garddio.

Mae'r gwasanaeth yn helpu'r bobl i fod mor iach ac actif â phosibl. Rhoddir dewisiadau i'r bobl, ond cânt eu hannog i gadw mor iach â phosibl, drwy ddeiet da, mwy o weithgarwch, a thrwy gyfleoedd i gysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r gweithwyr gofal yn rhoi cymorth meddyginiaeth i'r bobl sydd ei angen os yw hynny'n rhan o'r cynllun, ac mae'r trefniadau ar gyfer cofnodi'r broses hon wedi gwella. Os nad oes gan y bobl deulu neu gymorth arall i'w helpu i drefnu apwyntiadau ac ymweliadau â gweithwyr iechyd proffesiynol, gwelsom fod y gwasanaeth yn goruchwylio hyn, neu'n sicrhau bod yr unigolyn yn cael cymorth gan wasanaeth eirioli. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol, er enghraifft, at therapydd galwedigaethol er mwyn sicrhau bod y cyfarpar cywir ar gael i helpu'r bobl i symud o gwmpas.

Caiff gofal ei roi mewn ffordd barchus gan weithlu cyson. Mae'r bobl yn adnabod y gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi, a dywedodd un unigolyn wrthym "*They are lovely, I get on with all of them*." Caiff cydberthnasau gwaith cadarnhaol eu meithrin. Gwelsom y gweithwyr gofal yn defnyddio sgiliau cyfathrebu da, gan addasu eu tôn i ddiwallu anghenion pobl sy'n drwm eu clyw. Dywedodd sawl un o'r bobl wrthym eu bod yn cael gofal da, a bod y gweithwyr gofal yn dangos parch tuag atynt. Caiff dewisiadau'r bobl eu parchu, a lle y bo'n bosibl, mae'r gwasanaeth yn ymateb i geisiadau, er enghraifft, cais i gael gofal yn Gymraeg.

Caiff llesiant emosiynol a llesiant meddwl y bobl eu hystyried a'u cefnogi. Mae'r gweithwyr gofal yn rhoi gwybod am bryderon a allai fod ganddynt mewn perthynas â llesiant unigolyn fel y gellir trefnu cymorth priodol os bydd ei angen. Mae'r bobl yn gwerthfawrogi eu gweithwyr gofal a chymorth, a dywedodd un unigolyn wrthym, "*They put a smile on my face in the morning*." Mae'r gweithwyr gofal yn annog y bobl i gymryd rhan mewn grwpiau a gweithgareddau cymunedol, ac mae'r gwasanaeth weithiau'n gwneud trefniadau er mwyn helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut y gall eu hymagwedd helpu rhywun â salwch meddwl, ac mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r bobl sydd angen cymorth o'r fath yn llwyddiannus. Dywedodd un

unigolyn wrthym "*I am managing much better now*," gan ei fod wedi cael ei annog a'i gefnogi i oresgyn yr heriau roedd yn eu hwynebu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y gwasanaeth ei lywodraethu a'i oruchwylio'n dda. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn deall ei rôl a'i ddyletswyddau, ac yn ymgymryd â nhw i safon uchel. Mae'n ymweld â'r gwasanaeth, yn siarad â'r bobl a'r staff, ac yn samplu dogfennaeth, yn ogystal ag ystyried gwybodaeth arall sydd ar gael iddo. Mae hyn yn ei helpu i ddod i gasgliadau am ansawdd y gofal ar y pryd, yn ogystal â sut y gall y gwasanaeth barhau i wella. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith. Mae'r ‘datganiad o ddiben’ a'r ‘canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth’ yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r bobl er mwyn iddynt wybod beth y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth ac maent ar gael, ar gais, yn Gymraeg.

Mae rheolwr gwybodus a phrofiadol yn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r rheolwr yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r sefydliad ehangach, sy'n ei alluogi i feithrin diwylliant cadarnhaol ymhlith y tîm o staff. Mae hyn yn helpu i lywio gwelliannau lle caiff y gweithwyr gofal gymorth i feithrin gwell dealltwriaeth o'u rôl a'r gofynion cofnodi. Mae'r rheolwr yn monitro amseroedd galwadau yn ofalus, ac mae'r tîm o weithwyr gofal yn barod i weithio pan fydd aelodau eraill o staff ar wyliau neu'n absennol er mwyn osgoi defnyddio staff asiantaeth. Mae systemau ar waith i archwilio ac i fonitro tasgau a chofnodion. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu pan fydd archwiliadau yn tynnu sylw at fylchau mewn cofnodion neu'n nodi gwelliannau i'w gwneud.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel a'u hyfforddi. Mae'r darparwr yn dilyn systemau ffurfiol wrth recriwtio gweithwyr gofal. Cynhelir gwiriadau i sicrhau bod y gweithwyr gofal yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed ac mae'r holl ddogfennaeth sydd ei hangen fel tystiolaeth o hyn ar gael yn y ffeiliau personél neu wedi'i storio'n ddiogel yn yr adran ‘Adnoddau Dynol’. Mae rhaglen sefydlu yn ymdrin â phynciau sy'n rhoi dealltwriaeth dda i'r gweithwyr gofal o'u rôl a'u dyletswyddau cyn iddynt ddechrau darparu gofal. Rhoddir digon o amser iddynt fagu hyder drwy system gysgodi. Mae hyfforddiant ychwanegol gan gynnwys ‘Dementia’, a ‘Diogelu Oedolion Agored i Niwed’, yn rhoi gwybodaeth ehangach er mwyn helpu'r gweithwyr gofal i ddiwallu anghenion y bobl. Darperir rhywfaint o hyfforddiant arbenigol mewn perthynas â ‘Rheoli Ymddygiadau Heriol’ hefyd. Mae'r rheolwr yn arwain drwy esiampl, ac yn mynychu sesiynau hyfforddi er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y sector.

Mae gweithgareddau datblygu a chymorth i'r staff yn glir ac yn gyson. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un gyda rheolwr i'w helpu i ddatblygu ac i nodi eu hanghenion cymorth. Mae hyn yn cynnwys helpu'r gweithwyr gofal i gyflawni cymhwyster cydnabyddedig ac i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Mae'r darparwr yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi'r gweithwyr gofal ac mae'n gweithredu sawl menter sydd o fudd i'r gweithlu. Mae hefyd yn talu costau, er enghraifft, costau hyfforddiant, milltiroedd, gwisg a ffioedd cofrestru; ac yn cynnig cynlluniau i ddiwallu eu

hanghenion meddygol. Mae'r uwch-weithwyr gofal wedi magu hyder o ganlyniad i'r cymorth y maent wedi'i gael ac maent yn helpu'r rheolwr i redeg y gwasanaeth yn ddidrafferth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 58 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod archwiliadau o'r prosesau ar gyfer meddyginiaethau yn nodi arferion gwael lle nad yw'r gweithwyr gofal yn dilyn y gweithdrefnau ar gyfer caffael meddyginiaethau a chofnodi'r broses o roi meddyginiaethau. | Cyflawnwyd |
| 34 | Nid yw'r strwythur rheoli yn y gwasanaeth yn rhoi cymorth effeithiol i bob aelod o'r staff gofal. O ganlyniad, mae'r trefniadau goruchwylio a'r broses ar gyfer datblygu staff yn wael, a allai effeithio ar y gofal a roddir. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/04/2024